24c Stryd y Coleg
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 3AF

Ffôn: 01269 595400

Un Llais Cymru
One Voice Wales

24c College Street
Ammanford
Carmarthenshire
SA18 3AF

Phone: 01269 595400

Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

# CYNLLUN CYFLAWNI'R STRATEGAETH GORFFORAETHOL

## 2024-25

## Crynodeb Gweithredol



Ebost/Email: gweinydd@unllaiscymru.cymru / admin@onevoicewales.wales
Gwefan/Website: www.unllaiscymru.org.uk / www.onevoicewales.org.uk

**Eich arweiniad "cipolwg" i'n Cynllun Busnes**

| Strategaeth Gorfforaethol | |
|---|---|
| 1. Rhagarweiniad | Mae'r adran hon yn disgrifio gwaith Un Llais Cymru, ac yn gosod y cyd-destun cyffredinol ar gyfer gweddill y ddogfen. Mae'n disgrifio'r tirlun y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn gweithio oddi fewn iddo.<br><br>Cofnodir y prif gyflawniadau ar gyfer y flwyddyn flaenorol: cofnodir lefelau aelodaeth; tyfu trefniadau partneriaeth a'n hymrwymiad i atebion cynaliadwy a digidol. Llawer mwy. Darllenwch am y trefniadau hyfforddiant cyffrous rydym yn eu cynnig. |
| 2. Ein Gweledigaeth | "Gweithio gyda chynghorau lleol yng Nghymru i lywio a lliwio'r lleoedd y mae cymunedau eisiau byw ynddynt". |
| 3. Datganiad Cenhadaeth | "Cynrychioli buddiannau Cynghorau Cymuned a Thref; gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r haen gyntaf hon o lywodraeth; a gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y sector yn cyfrannu'n llawn at y nod o ddatblygu cymunedau deinamig a chynaliadwy yng Nghymru." |
| 4. Nodau Craidd | O fewn cwmpas y Datganiad Cenhadaeth, cafodd wyth Nod Craidd eu hadnabod. Mae popeth y mae'r mudiad yn ei wneud yn cyfrannu at gyflawni un neu ragor o'r Nodau Craidd. |
| 5. Tirlun Polisi Cymunedau a Llywodraeth Leol - y sail tystiolaeth a symbylwyr dros newid | Mae'r adran hon yn manylu ar yr amgylchedd strategol a gweithredol y mae cynghorau lleol yn darparu gwasanaethau oddi fewn iddo. Cafodd cyfyngiadau ariannol, trefniadau llywodraethu newydd a symudiad diwylliannol, ôl-Covid effaith enfawr. Mae cyflymdra newidiadau yn galw am atebion blaengar i heriau newydd.<br><br>Mae cydweithio i ddod o hyd i'r atebion hyn, adeiladu capasiti a galluedd yn golygu y gallwn gynllunio ar gyfer yr hirdymor a chreu un weledigaeth yn ogystal ag osgoi dyblygu ymdrechion.<br><br>Caiff wyth maes gweithgarwch eu hadnabod ar gyfer 2024-25. |
| 6. Prif ofynion strategol a gweithredol ar gyfer datblygiad Un Llais Cymru a Chynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru | Mae wyth amcan yn creu'r cyd-destun thematig ar gyfer datblygu yn 2024-25. |

| Cynllun Cyflawni Gweithredol | |
|---|---|
| 1. Rhagarweiniad | Mae’r adran hon yn cyflwyno egwyddorion a blaenoriaethau y mae’r Cynllun yn seiliedig arnynt. |
| 2. Crynodebau o’r Prif Wasanaethau a ddarperir i Aelod Gynghorau 2023-24 | Mae ein gwasanaeth cynhwysfawr i aelod gynghorau yn cynnwys cyngor cyfreithiol, arweiniad polisi, cyfleoedd hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghorol. |
| 3. Trefniadau Rheoli a Staffio | Crynodeb pwysig o drefniadau llywodraethiant a rheolaeth Un Llais Cymru. |
| 4. Gweithio mewn Partneriaeth | Mae Un Llais Cymru wedi ymrwymo i weithio gydag eraill i gyflawni ei nodau. Mae hyn yr un mor wir am hyrwyddo cydweithio rhwng Cynghorau Cymuned a Thref ag y mae am weithio gyda phartneriaid eraill. Mae’r adran hon yn disgrifio rhai o’r trefniadau partneriaeth hyn. |
| 5. Strategaethau Cyfathrebu | Bydd cymysgedd priodol o offerynnau cyfathrebu yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol a chyson yn cael ei rhannu sy’n dangos fod Un Llais Cymru yn fudiad proffesiynol ac yn brif ddarparydd gwasanaethau o ansawdd ar gyfer cynghorau lleol.<br><br>Mae’r prif fudd-ddeiliaid yn cynnwys aelod gynghorau, cynghorau nad ydynt yn aelodau a phartneriaid allanol megis Llywodraeth Cymru, Y Senedd, y WLGA, awdurdodau unedol a’r sector gwirfoddol. |
| 6. Dadansoddiad SWOT | Adolygiad gwraidd a changen o’r ffactorau sy’n rheoli ein perfformiad neu’n gosod heriau newydd. |
| 7. Amcanion a Phrif Weithgareddau Cynllun Cyflawni Gweithredol 2024-25 | Mae Un Llais Cymru yn cefnogi’r dyhead y dylai pob Cyngor fod yn gynghorau gweithredol sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch ac o ansawdd uchel yn eu cymunedau.<br><br>Mae atodiad yn disgrifio manylion y prif amcanion a chamau a gynlluniwyd ar gyfer 2024-25 . |
| 8. Prif Dargedau ar gyfer 2024-25 | Cyfeirir at amcanion manwl ar gyfer 2024-25 sy’n cynnwys dyddiadau targed neu gwblhau yn unol â’r Nodau Craidd y maent yn cyfrannu atynt. |

| | |
|---|---|
| 9. Monitro Perfformiad | Mae dangosyddion perfformiad lefel uchel ar gyfer pob Prif Amcan ar gyfer 2024-25 a monitro perfformiad effeithiol yn sicrhau bod Un Llais Cymru yn parhau'n debygol o gyflawni ei amcanion. |
| 10. Cyllidebau | Canlyniad refeniw disgwyliedig ar gyfer 2023-24 a chyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2024-25. |
| Atodiad | Amlinelliad manwl o sut mae Un Llais Cymru yn bwriadu cyflawni ei amcanion. Cynhwysir statws blaenoriaeth ar gyfer pob cam ac fe nodir swyddogion arweiniol ac amserlenni. |